Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfechell
# Llanfechell
# Amlwch
# Ynys Môn
# LL68 0SA

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llanfechell wedi'i leoli yng nghanolfan gymunedol Llanfechell, ac mae'n gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Llanfechell yn awdurdod lleol Ynys Môn.

Mae'r cylch chwarae wedi cofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant y sesiwn am 4 diwrnod yr wythnos. Derbynnir plant o ddwy flwydd a hanner. Ar hyn o bryd, mae 12 o blant rhwng dwy a hanner a phedair oed ar y gofrestr. Ar hyn o bryd, mae chwe phlentyn tair oed yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu yn y lleoliad, er nad oedd pob un ohonynt yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Er mai Cymraeg yw iaith y lleoliad, Saesneg yw iaith y cartref i fwyafrif y plant. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant yno ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae tri aelod staff parhaol, gan gynnwys arweinydd y cylch chwarae. Caiff dau ymarferwr eu cyflogi'n rhan-amser. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau addas a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd er 1997.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Rhagfyr 2012 ac Estyn yn Hydref 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Cylch Meithrin Llanfechell yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn mwynhau eu dysgu ac yn awyddus i siarad am yr hyn maent yn ei wneud;
- mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd cefnogol a llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal;
- mae ymarferwyr yn gosod disgwyliadau cyson ar gyfer y plant a'u hamgylchedd;
- mae'r profiadau dysgu yn gyffrous ac yn symbylol, yn enwedig dan do; ac
- mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg plant.

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd a'r ymarferwyr eraill wedi ymrwymo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- mae arweinwyr yn y lleoliad yn gwybod beth maent yn ei wneud yn dda a beth y mae angen iddynt ei wneud i wella;
- mae gwaith tîm effeithiol a'r ethos cadarnhaol yn creu awyrgylch hapus ar gyfer dysgu;
- mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cael eu hysbysu'n dda ac yn gweithio'n effeithiol gyda'r lleoliad i wella deilliannau i blant; ac
- mae'r holl ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gymorth priodol ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i wella'u gwaith.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored yn effeithiol i gynnig cyfleoedd gyda mwy o ffocws er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant ar draws pob maes dysgu

A2 Sicrhau bod targedau ar gyfer gwella yn canolbwyntio'n gliriach ar y deilliannau i blant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygiad eu medrau, y Gymraeg na lles oherwydd nid oedd digon o blant perthnasol yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy ydynt.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a symbylol i blant ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen o fewn cyfyngiadau'r adeilad. Fodd bynnag, mae ystod y profiadau y mae'n eu darparu yn yr ardaloedd awyr agored yn fwy cyfyngedig. Mae pwyslais priodol ar chwarae a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol yn y lleoliad. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfle i brynu a gwerthu blodau yn y siop, ac maent yn gofalu am ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu yn yr ardal awyr agored. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau eu dysgu ac yn awyddus i siarad am yr hyn maent yn ei wneud.

Yn yr ardal dan do, mae'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae plant yn dysgu adnabod eu henwau yn ystod amser cylch ac amser cofrestru, yn mwynhau trafod llyfrau yn ystod amser byrbryd ac yn defnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu fel pensiliau a phaent yn yr ardaloedd ysgrifennu a pheintio. Mae'r siop yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddefnyddio darnau arian i brynu a gwerthu blodau a chyfrif nifer y blodau yn y tusw. Mae'r lleoliad yn darparu ystod addas o gemau er mwyn i'r plant baru a chyfrif rhifau i ddeg. Mae darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant. Mae ymarferwyr yn annog plant i feddwl drostynt eu hunain a darparant gyfleoedd addas iddynt weithredu'n annibynnol.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol i nodi medrau a chyfleoedd i ddatblygu dysgu plant yn ystod gweithgareddau bob dydd. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi'n ffurfiol y camau nesaf yn eu dysgu.

Er bod y lleoliad yn un cyfrwng Cymraeg, dim ond lleiafrif o blant sy'n siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol drwy gydol y sesiwn i atgyfnerthu a datblygu medrau Cymraeg plant. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant wrando ar gyfarwyddiadau a gorchmynion yn Gymraeg, ac ymateb iddynt. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd priodol i blant ganu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg a gwrando ar straeon byrion Cymraeg. Mae plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a defnyddiant ystod briodol o strategaethau i sicrhau bod plant yn ymhél yn bwrpasol â gweithgareddau ac yn cynnal diddordeb yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd cefnogol a llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal.

At ei gilydd, mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl blant a defnyddiant fedrau holi yn dda i ymestyn dysgu'r plant. Maent yn fodelau da ar gyfer iaith, yn enwedig yn eu defnydd ar y Gymraeg, ac mae hyn yn datblygu geirfa a medrau llefaredd plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn y lleoliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau dull cyson o reoli ymddygiad plant ac o ymyrryd yn briodol yn ystod gweithgareddau chwarae plant. Maent yn gosod disgwyliadau cyson ar gyfer yr holl blant a'u hamgylchedd. At ei gilydd, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan y plant a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion, ac mae ymarferwyr yn annog y plant i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys rhoi cyfle i'r plant arllwys eu llefrith eu hunain yn ystod yr amser byrbryd, paratoi i fynd allan a thacluso ar ddiwedd y sesiwn.

Mae ymarferwyr yn arsylwi'n briodol ar blant, ac yn rhyngweithio'n briodol â nhw, yn ystod gweithgareddau i fonitro a chofnodi eu cyflawniadau mewn tasgau â ffocws ac yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i ddarparu gweithgareddau addas o heriol i lawer o unigolion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cofnodi'r camau nesaf ar gyfer yr holl blant yn eu cynllunio.

Mae llyfrynnau asesu sy'n cael eu cwblhau pan fydd plant yn dechrau yn y lleoliad yn darparu gwaelodlin dda ar gyfer asesu ac mae adroddiadau i rieni'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plentyn. Mae'r 'llyfr trysor' yn darparu cofnod darluniadol parhaus da o'r cynnydd y mae plant yn ei wneud ym mhob maes dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn briodol. Mae'n darparu cyfleoedd addas i'r plant fanteisio ar ystod dda o weithgareddau datblygu corfforol. Er enghraifft, mae sesiynau dyddiol yn yr awyr agored yn annog plant i ddefnyddio teganau ag olwynion arnynt ac i daflu a dal offer yn hyderus.

Trwy drafodaethau, mae ymarferwyr yn annog plant yn effeithiol i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau, rhannu offer a gofalu am adnoddau. Caiff plant eu hannog i rannu a chymryd eu tro, er enghraifft wrth aros i ddefnyddio'r beiciau tu allan ac i sicrhau bod pawb yn tacluso ar ddiwedd y sesiwn. O ganlyniad, mae pawb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae ystod briodol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda, fel dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae plant yn dysgu am bwysigrwydd gofalu'n dda am yr amgylchedd trwy dyfu ffrwythau a llysiau yn yr ardal tu allan.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant yn y lleoliad sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae gan y lleoliad bolisïau priodol ar waith ac mae ymarferwyr yn gwybod i ble y gallant droi at gymorth proffesiynol i'r plant a'u teuluoedd os oes angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae polisïau priodol ar waith i hyrwyddo diogelwch ac mae'r pwyllgor rheoli yn eu hadolygu'n flynyddol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob plentyn. Mae pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth ac mae'r holl blant yn gallu manteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm.

Mae'r adeilad a'r safle yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Nid y lleoliad yn unig sy'n defnyddio'r ardaloedd addysgu mewnol, ac mae'n rhaid i'r ymarferwyr dynnu'r holl adnoddau allan a'u rhoi i'w cadw bob dydd. Er gwaethaf hyn, mae ymarferwyr yn defnyddio'r lle sydd ganddynt yn dda. Mae arddangosiadau deniadol yn dathlu gwaith a chyflawniadau'r plant yn dda. Mae ymarferwyr yn labelu'r arddangosiadau hyn yn glir i sicrhau bod y plant yn gweld testun mewn print bob dydd. Mae ardal awyr agored y lleoliad yn gyfyngedig. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel, a dyma'r brif fynedfa i'r ganolfan gymunedol. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal hon yn briodol bob dydd ar gyfer datblygiad corfforol ac mae ganddo ardal fechan lle mae'r plant yn tyfu ffrwythau a llysiau, ac yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r ardal awyr agored yn ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae mynediad priodol i gae'r ysgol ar gyfer diwrnodau chwaraeon a digwyddiadau eraill.

Mae'r adnoddau dysgu o ansawdd da ac maent ar gael yn hwylus i'r plant yn ystod y sesiwn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd profiadol y cylch chwarae yn frwdfrydig ac yn ymroddedig iawn i gyflawni ei rôl yn dda. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr eraill i sicrhau'r ddarpariaeth orau i'r plant. Mae'r arweinydd yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r pwyllgor rheoli, ac yn rhoi gwybod yn briodol i'r aelodau am gynnydd y lleoliad a'r meysydd i'w datblygu trwy gyfarfodydd a'u hymweliadau â'r lleoliad. Mae'r berthynas â phlant, rhieni a gofalwyr a'r ysgol gynradd y mae'r lleoliad yn ei bwydo yn gadarn ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned.

Mae prosesau priodol ar waith drwy'r pwyllgor rheoli i reoli perfformiad staff. Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Maent yn awyddus i ddatblygu eu hymarfer, gweithio'n agos gyda lleoliadau lleol eraill a mynychu ystod eang o hyfforddiant priodol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad wedi gweithredu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'n cymryd rhan yn weithgar ym Menter Cyn-ysgol Iach yr awdurdod lleol, sydd wedi gwella'i ddarpariaeth ar gyfer annog ffyrdd iach o fyw i blant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'n amlwg bod yr holl ymarferwyr wedi ymrwymo i wella ansawdd. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac mae ganddynt ffocws clir ar sicrhau bod profiadau dysgu yn rhai cyffrous a symbylol i blant a sicrhau bod plant yn hapus ac yn barod i ddysgu.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr eraill yn adnabod y lleoliad yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Gwnânt ddefnydd priodol o broses hunanarfarnu flynyddol ac maent yn gallu nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r lleoliad yn defnyddio holiaduron i rieni a phlant yn briodol er mwyn helpu i nodi beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wella. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer datblygu bob amser yn ddigon penodol i ddisgrifio'n glir y camau y mae eu hangen a'r deilliannau a ddisgwyliant. Mae cofnodi cynnydd a deilliannau monitro yn barhaus yn anghyson. Er bod y cynllunio ar gyfer gwelliant yn briodol at ei gilydd, nid yw bob amser yn canolbwyntio'n ddigon pendant ar sut bydd y camau o fudd i blant.

Mae ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cadarn i hunanwella. Maent yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant, yn barod i wrando ar syniadau newydd ac wedi ymateb yn gadarnhaol i gymorth gan staff ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gadarn â rhieni. Mae rhieni'n gwerthfawrogi ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir a lefel gofal a phryder yr ymarferwyr tuag at eu plant. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybod yn dda i rieni am beth mae eu plant yn ei ddysgu trwy hysbysfwrdd a ffeil wybodaeth y lleoliad, cyswllt personol dyddiol, llythyron a llyfryn gwybodaeth cynhwysfawr. Mae'r lleoliad yn gofyn barn rhieni ac yn rhoi adborth da iddynt ar ddeilliannau holiaduron.

Mae'r bartneriaeth rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd y mae'n ei bwydo, sydd yn yr un adeilad, yn dda ac yn cefnogi'r pontio o'r cylch chwarae i'r ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant o'r lleoliad yn ymweld â'r ysgol i rannu eu gwaith ac mae staff o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg.

Oherwydd ei leoliad gwledig iawn, prin yw cyfleoedd y lleoliad i ymhél â'r gymuned y tu hwnt i'r ysgol gynradd leol. Mae'r lleoliad yn dechrau sefydlu cysylltiadau â rhandir lleol er mwyn i'r plant dyfu ffrwythau a llysiau. Cyn iddi gau, roedd y plant yn defnyddio'r siop leol a'r swyddfa bost yn effeithiol i bostio llythyron gartref a phrynu cynhwysion ar gyfer coginio.

Mae gan y lleoliad drefniadau partneriaeth cadarn gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin, ac mae'r plant yn elwa'n dda ar y rhain.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac mae'n eu defnyddio'n effeithiol. Mae systemau priodol gan y pwyllgor rheoli i reoli'r ymarferwyr yn y lleoliad a sicrhau eu bod yn cael ystod effeithiol o hyfforddiant. Mae'r ymarferwyr yn rhannu syniadau'n dda ac yn defnyddio hyfforddiant ac ymweliadau â lleoliadau eraill yn briodol i ddatblygu a gwella'u harfer ac i wella'r ddarpariaeth i blant.

Mae systemau da gan reolwyr ar gyfer adolygu gwariant yn barhaus. Maent yn paru gwariant yn dda â blaenoriaethau ac amcanion y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn llwyddo i hyrwyddo gweithgareddau sy'n annog plant i ddysgu a gwneud cynnydd da. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mrs Janet Elizabeth Rowlands | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Broffesiynol er Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |